

## Dirprwy Olygydd Newyddion Digidol S4C

### Cyflwyniad

Mae S4C yn lansio gwasanaeth newyddion digidol fydd yn dod a'r newyddion diweddaraf i gynulleidfa Gymraeg o amrywiol ffynonellau. Y nod yw cyrraedd a gwasanaethu cynulleidfa iau na'r hyn sy'n gwylio Newyddion S4C ar deledu, er mwyn iddyn nhw fedru cael newyddion amrywiol yn y Gymraeg, ar ffurf fideo a thestun, pryd bynnag a lle bynnag mae nhw eisiau.

Dyma gyfle unigryw i fod yn rhan o wasanaeth arloesol fydd yn siapio hinsawdd newyddiadurool Cymru i'r dyfodol.

Gyda bys ar byls newyddion Cymreig a'r cyfryngau digidol bydd gennych syniadau creadigol a dyfeisgar am sut i ddatblygu gwasanaeth digidol o'r newydd a denu dilyniant.

Bydd gennych brofiad golygyddol a dealltwriaeth o'r gyfraith yn ymwneud â'r wasg a'r cyfryngau, yn ogystal â'r gallu i adeiladu perthnasau positif gyda phobl a sefydliadau er mwyn datblygu a chynnal partneriaethau.

Gyda sgiliau ieithyddol cryf bydd gennych y gallu i sicrhau safon a chywirdeb, a'r ddawn i gynnal tŷn ac arddull priodol ar gyfer y gwasanaeth.

Bydd gennych drwyn am stori a'r gallu i fod yn greadigol gyda'r cynnwys gan gynhyrchu cynnwys o safon sy'n dal y llygad ac yn creu sŵn.

Gyda sgiliau dadansoddi o'r radd flaenaf byddwch yn gallu mesur effaith y gwaith ac yn gallu gwerthuso'r ymdrech a'r buddsoddiad yn llwyddiannus.

Byddwch yn arddel gwerthoedd cynhwysol a byddwch yn frwd dros sicrhau bod amrywiaeth o bob math yn cael ei adlewyrchu gan y gwasanaeth.

### Disgrifiad swydd

Gan weithio gyda, ac o dan gyfarwyddyd Comisiynydd Newyddion a Materion Cyfoes S4C a Golygydd Newyddion Digidol S4C bydd y Dirprwy Olygydd Newyddion Digidol yn cyflawni'r dyletswyddau canlynol:

- Helpu i sefydlu'r gwasanaeth newydd, a gosod cyfeiriad golygyddol.
- Comisiynu a churadu cynnwys gan bartneriaid.
- Comisiynu cynnwys yn fewnol gan dim o newyddiadurwyr S4C
- Pan na fydd y Golygydd yn bresennol, arwain ac ysbrydoli tîm o newyddiadurwyr S4C a chyd-weithio gyda aelodau o dimau technegol, dylunio a digidol
- Sicrhau cywirdeb, cydymffurfiaeth a safon y cynnwys sydd yn cael ei gyhoeddi.
- Helpu i osod tŷn, llais a diwyg y gwasanaeth
- Meithrin a chynnal partneriaethau gyda'r cyflenwyr
- Gweithio gydag adrannau eraill yn S4C i lunio strategaeth fydd yn sicrhau cyrhaeddiad mor eang a phosib i'r gwasanaeth
- Dehongli data defnyddwyr er mwyn gwerthuso llwyddiant y cynnwys sy'n cael ei gyhoeddi
- Datblygu dealltwriaeth gref o gynulleidfaoedd S4C, strategaeth cynnwys S4C a'r cyd-destun mae'n gweithredu oddi fewn iddo
- Adnabod ac adeiladu perthynas gyda dylanwadwyr ar-lein

- Mynychu digwyddiadau am ddatblygiadau yn y maes gan adrodd yn ôl i gydweithwyr yn S4C a chwmnïau annibynnol
- Unrhyw waith rhesymol arall.

## Manyleb Person

Nodwedd	Hanfodol	Dymunol
<b>Profiad</b>	Profiad newyddiadurol a golygyddol	Profiad o gynhyrchu cynnwys digidol.
<b>Sgiliau a Gwybodaeth</b>	<p>Diddordeb a dealltwriaeth o gyfryngau digidol.</p> <p>Diddordeb a dealltwriaeth eang o newyddion Cymru a thu hwnt.</p> <p>Dealltwriaeth gref o'r tirwedd newyddiadurol Cymreig ac anghenion defnyddwyr newyddion digidol</p> <p>Dealltwriaeth drylwyr o ganllawiau darlledu a'r gyfraith.</p> <p>Y gallu i gyfathrebu yn rhugl yn y Gymraeg a Saesneg gyda staff ac eraill ar bob lefel, yn ysgrifenedig ac ar lafar, a'r sgiliau i sicrhau cywirdeb ieithyddol y gwasanaeth.</p> <p>Dealltwriaeth gref o gyfryngau cymdeithasol a llwyfannau digidol (e.e. YouTube, Facebook, Twitter, Instagram).</p>	<p>Dealltwriaeth ymarferol o ddadansoddi data digidol (e.e. ymgysylltiadau, ymatebion).</p> <p>Y gallu i gyfathrebu yn glir ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd trwy rwydweithiau cymdeithasol.</p> <p>Y gallu i ddefnyddio pecynnau meddalwedd golygu fideo ar unrhyw lefel e.e. Adobe Premiere, Avid, ShotCut.</p>
<b>Nodweddion Personol</b>	<p>Arweinydd.</p> <p>Creadigol.</p> <p>Trefnus.</p> <p>Y gallu i weithio o fewn amserlenni tynn.</p> <p>Medru gweithio'n annibynnol.</p> <p>Bydd yn wasanaeth 7 diwrnod yr wythnos ac angen parodrwydd i weithio y tu hwnt i oriau swyddfa arferol ac ar benwythnosau.</p>	

## Manylion Eraill

- Lleoliad:** Lleoliad arferol y swydd yw Canolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin
- Rydym yn annog pob cyflogai i gael cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith ac yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg, megis gweithio ystwyth, ynghyd ag ystod eang o batrymau gwaith gwahanol. Mae pob un ohonynt yn amodol ar anghenion busnes.
- Oherwydd yr achosion o Coronafeirws, mae S4C wedi lleihau mynediad i'w swyddfeydd ar gyfer staff nad ydynt yn ymwneud â darlledu er mwyn sicrhau diogelwch a lles unigolion ac i ddiogelu darlledu. Felly, efallai y bydd gofyn i chi weithio o bell wrth ymuno â'r sefydliad os yw'r cyfyngiadau hyn yn dal i fod ar waith.
- Cyflog:** Yn unol â phrofiad
- Cytundeb:** 24 mis
- Oriau gwaith:** 35 <sup>3</sup>/<sub>4</sub> yr wythnos. Oherwydd natur y swydd disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys gweithio tu allan i oriau swyddfa, ar rai penwythnosau a gwyliau banc.
- Cyfnod prawf:** 6 mis
- Gwyliau:** Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau gyda thâl y flwyddyn.
- Pensiwn:** Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%.

## Ceisiadau

Dylid anfon ceisiadau erbyn 12.00 ar ddydd Mawrth 1 Rhagfyr at [adnoddau.dynol@s4c.cymru](mailto:adnoddau.dynol@s4c.cymru) neu Adnoddau Dynol, Canolfan S4C, Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ. Nid ydym yn derbyn CV.

Gellir cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg. Ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn y Saesneg

## Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr amser llawn neu ran-amser, crefydd, safbwynt gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd ar iaith (heblaw lle bo'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i'r swydd) neu wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodir ar sail teilyngdod.